**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 12 Chwefror 2024 am 3.00 pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd (wyr)** | **Y Cynghorydd (wyr)** | **Y Cynghorydd (wyr)** |
|---|---|---|
| Y V Jardine | S M Jones | S Joy |
| J D McGettrick | F D O'Brien | A J O'Connor |

| **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** |
|---|---|---|
| Beth Allender | | |

**Hefyd yn bresennol**
Robert Smith, Aelod y Cabinet

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Kelly Small | Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: A Davis, A M Day a B Hopkins

---

## 119 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Dim

## 120 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

## 121 Cofnodion

Cytunodd y Panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 122 Llythyr

Derbyniodd y Panel y llythyr a anfonwyd at Aelod y Cabinet a oedd yn ymwneud â'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr.

## 123 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 124 Craffu ar y gyllideb flynyddol: am ei bod yn ymwneud â materion br addysg

Diolchodd y Panel i Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu a'r Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg am ddod i'r cyfarfod i drafod y Gyllideb Flynyddol fel y mae'n ymwneud â materion addysg. Darparwyd cyflwyniad a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Cyllideb ysgolion ar gyfer 2024-25
- Cyllideb ganolog a staffio canolog
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Adolygiad o wasanaethau
- Ffïoedd ar gyfer ysgolion
- Arbedion Eraill

Nodwyd y pwyntiau canlynol gan y Panel a byddant yn cael eu hanfon ymlaen at Banel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau, Cyllid ac Adfywio i'w trafod a byddant yn cael eu cynnwys yn eu llythyr at Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth.

- Rydym yn cydnabod ei bod yn gyllideb heriol ond cawsom ein calonogi bod Aelod y Cabinet a'r adran addysg wedi ystyried yn ofalus yr opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn gwneud y gorau o'r arian sydd ar gael.
- Rydym yn bryderus iawn am y gostyngiad parhaus yn lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan ysgolion. Er ein bod yn cydnabod yr angen i'r arian gael ei wario'n ddoeth, mae'n bwysig bod gan ysgolion lefel dda o gronfeydd wrth gefn i'w defnyddio fel 'clustog' os bydd angen gwneud hynny.
- Nodwyd gennym o gyfraniad Fforwm Cyllideb Ysgolion Abertawe, sef un o'r ymgyngoreion statudol, fod y setliad y mae Abertawe'n ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg yn 'gymharol wael ar safle 17/18 o'r 22 awdurdod lleol Cymru.' Fel Panel, byddem yn cefnogi rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i weithio i wella sefyllfa Abertawe.
- Croesawyd y newyddion am y cynllun peilot bws mini ADY ac edrychwn ymlaen at glywed mwy am hyn wrth iddo ddatblygu.
- Croesawyd y newyddion bod Llywodraeth Cymru yn debygol o dalu am y cynnydd o £5 miliwn (a dderbyniwyd fel rhan o symiau canlyniadol Barnett) yng nghostau pensiwn athrawon yn Abertawe.
- Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith bod y grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn gwastatáu a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar ein gwariant cyffredinol ar addysg.
- Teimlwn ei bod yn dda bod y Cyngor wedi derbyn taliad untro eleni, ond fe wnaethom fynegi pryder ynghylch yr hyn a all ddigwydd yn y dyfodol.
- Nodwyd y gorwariant ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol eto eleni. Byddwn yn cadw llygad ar sut mae hyn yn datblygu dros y flwyddyn i ddod.
- Rydym yn croesawu gwella darpariaeth 'o fewn y sir', a thrwy hynny leihau'r potensial ar gyfer cymaint o leoliadau y tu allan i'r sir. Fodd bynnag, sylweddolom fod yna arbedion mawr wedi'u rhagamcanu ar gyfer ADY a theimlwn ei bod yn

bwysig nad yw hyn yn effeithio ar y canlyniadau ADY cyffredinol yn Abertawe yn y dyfodol.

- Yn olaf, hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r ddwy ysgol a'r tîm addysg canolog am y gwaith y maent yn ei wneud yn y cyfnod heriol hwn.

125 **Cynllun Gwaith**

Derbyniodd y Panel y rhaglen waith gan nodi bod cyfarfod ychwanegol ar 19 Chwefror wedi'i drefnu i edrych ar drefniadaeth ysgolion mewn perthynas â chyfuno ysgolion arbennig yn Abertawe.

126 **Er Gwybodaeth - Rhestr Deilliannau Arolygiadau Ysgolion Unigol Diweddar**

Nodwyd yr wybodaeth gan y panel.  Gofynnodd y Panel fod adroddiadau'r dyfodol yn cynnwys ychydig mwy o gyd-destun, gan gynnwys rhai o'r pethau cadarnhaol am yr ysgolion.

**Cadeirydd**